

Y Ddeddf Teithio Llesol: Gwybodaeth ar gyfer Pobl Ifanc



Beth yw'r Ddeddf Teithio Llesol?

Yn 2013 penderfynodd Llywodraeth Cymru ei gwneud yn haws i bobl deithio'n llesol o amgylch Cymru a chrëwyd cyfraith newydd o'r enw'r Ddeddf Teithio Llesol.

Bydd y Ddeddf Teithio Llesol yn gwneud teithiau ar droed, beic neu sgwter yn haws gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynllunio llwybrau ar gyfer cerdded a beicio.

Sut y bydd llwybrau yn cael eu cynllunio?

Yn y lle cyntaf, mae angen cofnodi pob llwybr sy'n bodoli eisoes ar fap ac mae angen gofyn i bobl leol beth maen nhw'n ei feddwl o'r llwybrau hynny. Wedyn, bydd angen i awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru ofyn i'r cyhoedd ymhle fydden nhw'n hoffi gweld llwybrau newydd yn cael eu hadeiladu. Caiff yr wybodaeth yma'n cael ei ddefnyddio i gynllunio llwybrau a ffyrdd newydd ar gyfer y dyfodol.

Beth allai hyn olygu i ti?

Y Ddeddf Teithio Llesol yw'r gyfraith gyntaf yn y byd sy'n gwneud i gynllunwyr ffyrdd ystyried cerddwyr a beicwyr. Gallai wneud Cymru'n un o'r gwledydd gorau i deithio ar droed, beic neu sgwter.

Mae'r Ddeddf hefyd yn golygu fod cyfle gennynt i rannu dy farn am dy lwybrau lleol gyda'r awdurdodau.

Cei roi dy farn i awdurdodau lleol am lwybrau lleol a hefyd rhoi gwybod iddynt ble'r wyt ti'n meddwl y dylai'r ffyrdd newydd gael eu hadeiladu. Gallu ddarganfod sut i wneud hyn drwy gysylltu â:
schoolswales@sustrans.org.uk

Pam fod teithio llesol yn fuddiol?

Os wyt ti'n cerdded, beicio neu sgwtera, yna rwyd ti'n:

- cael hwyl a gweld ffrindiau
- cael ymarfer corff rheolaidd a gwella dy iechyd
- datblygu dy annibyniaeth
- anadlu llai o lygredd aer
- defnyddio llai o danwyddau ffosil sydd yn difrodi'r amgylchedd.

Sustrans yw'r elusen sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafni-aeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd. Mae'n bryd i ni gyd wneud dewisiadau gwell yn y ffordd yr ydym yn teithio. Cymerwch y cam a chefnogwch Sustrans heddiw. www.sustrans.org.uk